Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

Gweithgaredd 1.1: *Face the Music* – Stori'r blaned

Oed: 11–16

Nod
Archwilio cysyniadau datblygu cynaliadwy a chyd-ddibyniaeth mewn cyd-destun hanesyddol a byd-eang.

Bydd angen
Mynediad at y dudalen ganlynol ar y Rhyngrwyd http://www.oxfam.org.uk/get_involved/campaign/climate_change/face_the_music_animation.html a'r gallu i ddangos animeiddiad 'Face the Music' Oxfam i'r holl ddosbarth.

Beth i'w wneud
Arddangoswch y term "Datblygu Cynaliadwy" a dosbarthwch stribedi o bapur i'r myfyrwyr. Gofynnwch iddynt ysgrifennu (yn ddienw) ystyr yr ymadrodd yn eu barn hwy. Casglwch y papurau a darllenwch rai atebion yn uchel. Yna dangoswch fideo Oxfam "Face the Music" http://www.oxfam.org.uk/get_involved/campaign/climate_change/face_the_music_animation.html
A yw hyn yn eu cynorthwyo gyda'u diffiniad?

Eglurwch ei fod yn un o'r syniadau hynny sy'n golygu pethau ychydig yn wahanol i wahanol bobl. Felly nid oes un ateb cywir mewn gwirionedd. Ond y diffiniad a ddefnyddiwyd amlaf dros yr 20 mlynedd ddiwethaf yw hwn:

'Ystyr datblygu cynaliadwy yw defnyddio adnoddau'r ddaear i gyflawni anghenion dynol, gan ofalu ar ôl adnoddau'r ddaear er mwyn medru cyflawni'r anghenion hyn yn y dyfodol.'

Neu mewn geiriau eraill: mae'r ffordd yr ydym yn datblygu ein busnesau, diwydiannau, cartrefi a chymunedau yn effeithio ar yr amgylchedd, yn lleol ac yn fyd-eang, ond hefyd mae'r hyn yr ydym yn ei wneud i'r amgylchedd yn effeithio ar ein busnesau, diwydiannau, cartrefi a chymunedau – heddiw ac yn y dyfodol. Felly rhaid i ni gymryd gofal!

Eglurwch, er mwyn i ni fyw'n gynaliadwy, bod rhaid i ni sicrhau nad ydym yn defnyddio'r adnoddau mor gyflym fel nad oes modd eu hadfer, a rhaid i ni hefyd beidio niweidio'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – yn ogystal ag ar gyfer pobl heddiw.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Yna efallai y byddwch yn dymuno dangos yr animeiddiad eto fel arweiniad i Weithgaredd 1.2, sy’n annog disgyblion i edrych yn ddyfnach ar y materion a godwyd.